# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ0925(HSS) a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**At Jenny Randerson:**

Diolch am eich cwestiwn, a godwyd ar 21 Mehefin 2006 yn sgîl OAQ0925 a gyflwynwyd gan Lorraine Barrett. Gofynasoch 'sawl bwrdd iechyd lleol sydd wedi penodi person i arwain ar osteoperosis, sy'n un o'r camau cyntaf a argymhellir yn fframwaith gwasanaethau cenedlaethol i bobl hŷn'.

Lansiwyd y fframwaith gwasanaethau cenedlaethol i bobl hŷn, sy'n cynnwys deg safon, ar 20 Mawrth 2006. Nid oedd penodi person i arwain ymhlith camau gweithredu'r ddogfen a gyhoeddwyd yn derfynol.

Cyfeiriwch at y pwynt gweithredu o'r FfGC drafft ymgynghorol, 'dylai pob cymuned iechyd a gofal cymdeithasol nodi gweithiwr proffesiynol i arwain ynghylch cwympiadau a thoresgyrn', a ddilëwyd o'r FfGC terfynol gan y byddai'n anghyson â'r safonau eraill, gan na welwn reswm i benodi person â chyfrifoldeb ynghylch strôc, iechyd meddwl a moddion ac yn y blaen. Er hynny, nid yw'r FfGC yn gofyn i bob bwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth ac awdurdod lleol nodi rheolwr â phrif gyfrifoldeb am wasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol ac i'r person hwn gael cyfrifoldeb dros sicrhau cynnydd gyda'r cyfan o'r FfGC.

Bydd y camau gweithredu a gynhwyswyd gennym i'r safon am gwympiadau a thoresgyrn yn sicrhau ymagwedd amlasiantaeth at atal cwympiadau drwy adnabod a rheoli'n well y sawl sydd mewn perygl o gwympo a dioddef torasgwrn, a thrwy well mynediad i driniaeth a gwasanaethau. Bydd y ffocws ar hyrwyddo iechyd ar draws y FfGC ac yn fwy cyffredinol drwy Her Iechyd Cymru yn helpu atal cyflyrau megis osteoporosis, sy'n gwneud effeithiau cael codwm yn waeth.